

# Blwyddyn o Gelfyddydau

2012/13



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



Supported by  
The National Lottery®

Cefnogwyd gan  
Y Loteri Genedlaethol



# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	03
Rhagair y Prif Weithredwr	07
Pwy ydym a beth a wnawn	13
Blwyddyn o Gelfyddydau	17

---

Clawr blaen: *Torchbearers*

Prosiect Mzansi Cymru, Plant y Cymoedd.

Rhan o Grym y Fflam a ariannwyd gan Legacy Trust UK

Llun: Glenn Edwards

*Shelters*

Joanne Tatham a Tom O'Sullivan

Y Celfyddydau ar Draws y Ddinas 2012, Abertawe, LOCWS Rhyngwladol

Llun: © LOCWS Rhyngwladol



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, braille, ar dâp sain ac ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal



# Rhagair y Cadeirydd

Blwyddyn o wrando'n astud fu hi i mi a'r Cyngor. Ers haf 2012 rwyf wedi gwrando, arsylwi ac ymgyfranogi, a finnau'n gadeirydd panel adolygu'r Celfyddydau ym maes Addysg a gomisiynodd Llywodraeth Cymru i archwilio ystâd a statws cyfredol y celfyddydau mynegiadol yn ysgolion Cymru. Ledled Cymru cynaliasom grwpiau ffocws gydag athrawon, artistiaid, sefydliadau celfyddydol, myfyrwyr ysgol, rhieni a'r cyhoedd; ymwelsom â'r Alban a Lloegr ac ag ysgolion Cymru i astudio'r sefyllfa; ymchwliasom a thrafodasom swyddogaeth addysg, o Singapôr i Sydney, o Chicago i Calgary, o'r Ffindir i Fochriw. Yn yr hydref cyhoeddir fy adroddiad a rhydd y Gweinidogion dros Addysg a thros Ddiwylliant a Chwaraeon eu barn ar yr argymhellion. Pe gweithredir hwy'n llawn, rhagwelaf weddnewid sefyllfa'r celfyddydau ac addysg yng Nghymru a dyfodol pur greadigol. Bu'r holl wrando a'r holl feddwl yn werth chweil.

Ond nid dyna ddiwedd ar y gwrando. Yn y gwanwyn cychwynnodd y Cyngor gyfres o Sgyrsiau Celfyddydol i drafod ein swyddogaeth yn y maes mewn sesiynau undydd yn Llandudno, Aberystwyth, Abertyleri a Chaerdydd. Roedd y drafodaeth yn fywiog a difyr. Ymestynnwn ein dwylo dros y wlad i'w chynnwys mewn modd na fu ei debyg o'r blaen. Parhawn i wrando ac i ymateb dros y flwyddyn nesaf i sicrhau cyflawni a deall yn lleol ein polisi cenedlaethol. Ar ôl tywydd garw ailstrwythuro ac ad-drefnu rhaid inni sefydlu'r ymgysylltu cymdeithasol llawnach yr hoffai'r Cyngor ei greu ar sail campau a chyflawniadau'r celfyddydau.

Gwelwn hyn yn digwydd yn barod mewn sawl ffordd ond yr enghraifft orau oedd Olympiad Diwylliannol Cymru 2012 a drefnasom ledled y wlad. Dymunem effeithio ar fywyd pob person

iau a phawb anabl a'r rhychwant eang o bobl nad yw'r celfyddydau'n mennu dim arnynt. A gwnaethom hynny pan orymdeithiodd sain, goleuo a pherfformiad i mewn i gestyll Caernarfon a Chaerffili; gwnaethom hynny pan dynnodd y dorf awyren Adain Avion Marc Rees yn Abertawe a'i meddiannu yng Nglynebwy; gwnaethom hynny'n sicr pan gyfarfu'r Rhondda â Thref y Penrhyn ym Mzansi Cymru Plant y Cymoedd. Roedd llawer rhagor hefyd gan ein cwmnïau newydd, gan gynnwys Sinfonia Cymru a NoFit State, a'r mawrion - hen a newydd - Opera Cenedlaethol Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru a'r National Theatre Wales, ar dir Cymru neu Tokyo.

Daeth y byd atom ni pan enillodd yr artist gosodiad o Fecsico, Teresa Margolles, Artes Mundi 5 gyda darn angerddol, ymysgarol. Dysgasom ym Mai y cawn groesawu WOMEX, ffair gerddorol fwyaf y byd, yn yr hydref yn erbyn cystadleuaeth lem. Gwyddem hefyd na fyddem wrth fynd â Bedwyr Williams fel artist Cymru i'r sioe wefreiddiol a phenwan o gelf gyfoes, Biennale Celf Fenis yn methu â disgleirio fel 'negesydd serenog'.

Sut y gallwn gynnal hyn oll, tybed, ar gyllidebau bychain? (Rhaid cynnwys bob tro apêl am ragor, yn enwedig o ystyried yr elw anferth a ddeuai yn sgil buddsoddiad mor rhesymol.) Cefais fy ateb wrth gyflwyno grantiau Cymru Greadigol yn Theatr y Grand, Abertawe ym Mawrth: talent, sgiliau, angerdd, creadigrwydd. Cynhwysion y celfyddydau sy'n ein diffinio.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dai Smith', with a stylized, cursive script.

Yr Athro Dai Smith



---

Uchod: *Crochan a Ffwrnais*  
Castell Caerffili  
Partneriaeth rhwng Cadw a Chyngor Celfyddydau Cymru, rhan o Rym y Fflam  
a ariennir gan Legacy Trust UK

Ar y dde: *Birds*  
Leila Bebb, Unusual Stage School  
Llun: Phil Cope







# Rhagair y Prif Weithredwr

Ni adawyd neb a welodd Seremoni Agoriadol wych Danny Boyle i gemau Olympaidd Llundain mewn unrhyw amheuaeth am uchelgais, dychymyg a bywiogrwydd talent greadigol Prydain. Roedd y rhyfeddod yno ar y llwyfan yn llygad yr haul ac yng ngolwg pawb. Roedd Olympiad Diwylliannol Cymru'n benderfynol o beidio â gwywo dan y cysgod Llundainig a dangosai'n glir gyfraniad y celfyddydau i fywyd y genedl.

Ac wrth wynebu'r argyfwng economaidd, mae'n hynod bwysig inni gofio'r rhesymau am hyn.

Yn gyntaf oll, mae'r celfyddydau o bwys i bobl Cymru. Anghofiwch am y cyhuddiadau di-sail a disylwedd o elitiaeth. Nid y crachach yn unig a gaiff fwynhau noson fach allan. Dengys arolygon cyhoeddus dro ar ôl tro y daw'r rhain sy'n mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt o bob safle cymdeithasol ac o bob rhan o Gymru. A'u gwobr yw gwaith nodweddiadol a thrawiadol.

Megis crafu'r wyneb mae'r adolygiad hwn o'r flwyddyn. Ond yn y tudalennau sy'n dilyn gwelwch ddigonedd o dystiolaeth am gamp celfyddydau Cymru. Yn y degawd cyntaf ar ôl datganoli cafwyd buddsoddi cyson, di-dor yn y celfyddydau gan Lywodraeth Cymru a chanlyniad hyn oedd ffyniant diwylliant a chreadigrwydd. Llongyfarchaf hi am fod mor hirben. Mae yma hyder ac uchelgais na welwyd mo'u bath ers degawdau. Rhaid sicrhau eu parhad.

Unig gyfiawnhad mewn gwirionedd dros y celfyddydau yw eu llwyddiant a'u poblogrwydd. Ond hwy hefyd sy'n gyrru economi Cymru. Cyfrannant yn uniongyrchol o ran swyddi a chreu cyfoeth drwy eu hymdrechion creadigol i ddsbarthu a gwerthu gwasanaethau a nwyddau. Mae rhai rhannau o'r sector

---

## *Strafed*

Cadeiriau a bwrdd plastig wedi'u drilio a'u goleuo, 2012

Bedwyr Williams

Llun: Drwy garedigrwydd Ceri Hand

diwylliannol yn atyniadau pwysig i dwristiaid, gan greu'r galw am gludiant, llety, arlwyo a mathau eraill o fusnes sy'n ymwneud â maes twristiaeth. Ond rhoddant hefyd Gymru ar y map a chodi ei phroffil byd-eang.

Gartref a thramor gall diwylliant fod yn gatalydd adfywio ac mae hyn yn nodwedd bwysig o'r byd sydd ohoni. Caiff cyfleusterau diwylliannol unrhyw ardal ddylanwad cryf ar bobl fusnes wrth iddynt ystyried lleoli eu cwmnïau. Nid yw'n syndod yr atynnir penaethiaid busnes gan ansawdd bywyd da i'w hunain, eu teuluoedd a'u gweithwyr.

Ac mewn economi fodern fyd-eang yr 21ain ganrif mae gan y gweithwyr hynny sgiliau creadigol heb eu hail. Dyna'r rheswm am bwysigrwydd yr hyn sy'n digwydd yn ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion. Un o'n disgwyliadau sylfaenol am addysg yw iddi fod yn fodd i bobl ifainc gael swydd ar ôl ymadael â'r ysgol. Ond o hyd mae elfennau o'n haddysg sydd â'r hen nod o gynhyrchu gweithwyr llafuriol i ffatrïoedd economi'r degawdau ar ôl yr ail ryfel byd. Mae trigain mlynedd oddi ar hynny ac ym meysydd cyfathrebu, gwybodaeth, adloniant, gwyddoniaeth a thechnoleg y bydd swyddi'r dyfodol, bid siŵr. Gofyn y rhain am lefel uchel o ddychymyg creadigol a gweledigaeth fentrus - rhinweddau a feithrinir gan y celfyddydau.

Daeth y datblygiadau mwyaf yn y byd drwy fod yn greadigol ond, yn eironig ddigon, ni ddysgwyd y rhan fwyaf o bobl i greu. Yn fwyfwy geilw cyflogwyr am sgiliau a nodweddion nad ydynt yn rhan o gymwysterau academaidd - creu, cyfathrebu, cydymdeimlo, ymaddasu a chymdeithasu. Felly disgwyliwn yn eiddgar am



---

Uchod: *Plancha*, 2010,  
Teresa Margolles, Artes Mundi 5  
Gosodiad â 10 plât dur poeth a dŵr golchi cyrff y meirwon.  
Drwy garedigrwydd yr artist ac Oriel Peter Kilchmann, Zürich  
Llun: Wales News Service

Ar y dde: *Y Storm*  
Theatr Genedlaethol Cymru  
Rhan o Ŵyl London 2012 a Gŵyl Shakespeare y Byd  
Llun: Toby Farrow



ganlyniad adolygiad y Celfyddydau ym maes Addysg gan y Llywodraeth a gomisiynwyd yn gynharach eleni dan arweiniad ein cadeirydd, yr Athro Dai Smith.

Mae angen buddsoddi yn y cyfalaf creadigol sydd ynom bob un i ryddhau ein dychymyg, ein gweledigaeth a'n posibiladau. Ar hyn y dibynna'n lles cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Hebdo rydym yn farwaidd, yn economaidd ac yn greadigol. Deallwn wrth gwrs y pwysau ariannol sydd ar y llywodraeth ond byddai toriadau yn gam sobr yn ôl. Bach yw celfyddydau Cymru ond mawr eu heffaith. Gwarantai lefel fach o ariannu (o'i chymharu â gwariant cyffredinol unrhyw lywodraeth) ganlyniadau syfrdanol.

Cytunwn yn llwyr â gweledigaeth Llywodraeth Cymru y dylai pawb fyw mewn cymuned fywiog, gynaliadwy a hyfyw gydag economi gref ac ansawdd bywyd da. Daw adfywio drwy drawsnewid lleoedd sy'n tanberfformio, lleihau anhydraddoldebau a sicrhau twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy.

Rhaid ystyried y goblygiadau gwleidyddol yn wahanol pan wneir y penderfyniadau anodd. Mae'r celfyddydau'n fodd inni ddeall y byd o'n cwmpas, doethineb yr hen Gymry a'r dewrder i greu cymdeithas gryfach a thecach. Dengys ein Blwyddyn o Gelfyddydau fod y celfyddydau a diwylliant yn gynhwysion hanfodol yn ein bywyd beunyddiol. Maent yn werth eu dathlu a dylai'r llywodraeth gadw llygad barcud arnynt.



Nick Capaldi

---

*Adain Avion*  
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau  
Comisiwn Artistiaid ar y Blaen Cymru, yn rhan o Wyl London 2012 ac Olympiad  
Diwylliannol London 2012  
Llun: Warren Orchard





# Pwy ydym a beth a wnawn

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen annibynnol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Penodir ei aelodau gan Weinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru yw ein prif noddwr. Dosbarthwn hefyd arian y Loteri Genedlaethol a chodwn arian ychwanegol o wahanol ffynonellau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ni yw prif asiantaeth datblygu ac ariannu celfyddydau Cymru.

Gweithia'n staff mewn swyddfeydd ym Mae Colwyn, Caerfyrddin a Bae Caerdydd.

## Ein blaenoriaethau

Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd y genedl.

### Dyma'n blaenoriaethau:

- cefnogi creu'r gelfyddyd orau
- annog rhagor o bobl i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau
- cynyddu economi'r celfyddydau
- gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru yn fusnes effeithiol ac effeithlon

Yn ogystal â chefnogi a datblygu gweithgareddau celfyddydol o'r radd flaenaf, dyma rai o'n gweithgareddau beunyddiol:

- dosbarthu arian y Loteri
- darparu cyngor am y celfyddydau
- rhannu gwybodaeth
- codi proffil celfyddydau Cymru
- cynhyrchu rhagor o arian i economi'r celfyddydau
- dylanwadu ar gynllunwyr a phenderfynwyr
- datblygu cyfleoedd rhyngwladol yn y celfyddydau
- hybu perfformiadau bychain mewn cymunedau lleol

Ein gwaith yw sicrhau cydnabod, gwerthfawrogi a dathlu cyfraniad y celfyddydau.



---

Uchod: *La bohème*  
Opera Cenedlaethol Cymru  
Llun: Catherine Ashmore

Ar y dde: *Elemental, Crochan a Ffwrnais*  
Celf ar y Blaen yng Ngwaith Haearn, Blaenafon  
Llun: Cadw, Llywodraeth Cymru (hawlfraint y Goron)







# Blwyddyn o Gelfyddydau

Anodd yw dychmygu byw heb y celfyddydau. Diffiniant a lluniant y ddynoliaeth. Disgrifiant y profiad dynol a phryfociant, blinant, heriant, bodlonant, ysbrydolant a chyfareddant ddyn. Dyma pam y cred Cyngor Celfyddydau Cymru y gellir cyfiawnhau buddsoddi yn y celfyddydau: mae'n fuddsoddiad yn ein creadigrwydd a'n cyfalaf diwylliannol fel cenedl. Yn yr adroddiad hwn wele ein gweledigaeth a'n hangerdd dros gelfyddydau gwych sy'n ymgysylltu â'u cynulleidfa. Haedda Cymru'r gorau.



# Gwanwyn 2012

## Who's Afraid of Rachel Roberts?

Ymhlith sêr Hollywood roedd un ferch i weinidog, Rachel Roberts, Cymraes lân loyw a enillodd BAFTA ac ag enwebwyd am Oscar. Hi oedd pwnc drama Theatr y Torch.

Ysgrifennwyd y ddrama gan actores arobryn arall, Helen Griffin. Bwrddwn y darn oedd mai “gelyn pennaf Rachel oedd hi ei hun ond achubwyd ei chymeriad gan ei hiwmor. Hyd yn oed pan oedd ei hwyliau ar eu hisaf, medr godi gwên”. Os na wyddech pwy ydoedd roedd yn bosibl o hyd i fwynhau'r darn oherwydd fel yr esboniodd Helen ymhellach: “mae'r themâu'n oesol ac yn berthnasol – obsesiwn am enwogrwydd, bod yn gaeth i'r ddiiod feddwol, cariad coll – themâu tragwyddol sydd, efallai, yn fwy perthnasol nag erioed.”

## NoFit State yn cicio'r tresi

Dychwelodd NoFit State i Bontardawe fis Mai diwethaf â *Barricade* - sioe newydd wefreiddiol yn llawn cynnwrf ar set newydd eiconig gan y dylunydd arobryn Dan Potra. Dechreuwa wrth godi gwrthglawdd yn erbyn y storom sydd ar ddyfod a cheir campau gymnasteg ac yn yr awyr, comedi, delweddu pwerus a sioe dân syfrdanol i gloi.

Mae'r digwydd ar fypwy a'r cymeriadu celfydd sy'n arwain at y perfformiad yn sylfaen gadarn ar gyfer profiad ysgytwol o syrcau sy'n archwilio dymchwel rhwystrau i ganfod ein ffordd drwy fywyd. Esgorai ar ysbryd gwrthryfelgar yn y frwydr dros ryddid. Dyma enghraifft wych o syrcau o safon inni ymgolli ynddi.

---

*Barricade*  
NoFit State  
Llun: Matt Smith

## Cerdd y byd a Chymru yng Ngŵyl y Gelli

Yng Ngŵyl byd enwog y Gelli Gandryll cyflwynna Cerdd Cymru: Music Wales a WOMEX 13 berfformiad arloesol gan 9Bach yn the Sound Castle, sy'n rhagflas i WOMEX 13 a gynhelir yng Nghaerdydd ar ddiwedd Hydref 2013.

## Bedwyr i'r Biennale

Dewiswyd prosiect Bedwyr Williams a gydguradurir gan Mostyn ac Oriel Davies gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru i gynrychioli Cymru yn yr Arddangosfa Gelfyddydol Ryngwladol Biennale Fenis rhif 55. Ymdrinia ei berfformiadau byw barddonol a chomig a'i osodiadau â Chymreictod, bod fel arall ac yn wahanol. Yn y gorffennol ymgymerau â gwahanol bersonâu - pregethwr unllygeidiog, Angau a Chownt y Paill.

***“Mae gennyf ddiddordeb yn y sefyllfaoedd gwaethaf oll a'r bobl sy'n cael eu hunain ynddynt”***

meddai.



---

Uchod: 9Bach  
Sound in the Castle, Gŵyl y Gelli

Ar y dde: *Who's Afraid of Rachel Roberts?*  
Helen Griffin, Theatr y Torch  
Llun: Craig Sugden







# Haf 2012

## Adloniant heb ei ail ar awyren

Creodd Marc Rees, yr artist o Gymru, le celfyddydol symudol o gorff awyren DC-9. Teithiodd Adain Avion ledled Cymru gan danio dychymyg y genedl yn rhan o Wyl London 2012. Nythodd yr awyren yn Abertawe, Glynebwy a Llandudno am dair wythnos (24 Mehefin-14 Gorffennaf) gan gynnal gweithgareddau a adlewyrchai diwylliant a hanes pob ardal. Ffilmwyd pob dim a'i storio ym mlwch du'r awyren a datgelwyd y cynnwys i Eisteddfodwyr Llandw yn Awst 2012.

*Vetch Veg - paradwys drefol* oedd celfwaith ymgyfranogol a chymdeithasol cysylltiedig ag *Adain Avion*. Trawsnewidiwyd rhan o hen gartref fîm pêl-droed Dinas Abertawe a phe safai o hyd dathlai'r cae ei ganmlwyddiant yn 2012. Creodd yr artist, Owen Griffiths, ardd lysiau dros dro gyda phobl o'r gymuned leol dros un tymor tyfu. Penllanw hyn fu sioe llysiâu a ffrwythau o gwmpas nythfa'r *Adain Avion* o flaen Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a chinio gŵyl ddiolchgarwch i bobl leol ar yr awyren. Meddai Owen: “Mae'n bwysig ailgysylltu â thyfu bwyd fel y cwyd prisiau popeth. Mae hefyd yn gam tuag at gymdeithas fwy entrepreneuriaidd a chreadigol. Ffordd newydd o drin y tir yw defnyddio'r Fets i dyfu llysiâu ac ailgylchu ac ailffurfio adnoddau”.

---

*Vetch Veg - An urban utopia*, Adain Avion  
Y Fetch, Abertawe  
Llun: Owen Griffiths

Datgelu cynlluniau i ddathlu pen-blwydd Dylan Thomas yn gant

Llwyddiant cychwyn Gŵyl Llenyddiaeth Dinefwr

“Roeddem yno ar ddechrau rhywbeth mawr iawn.” Horatio Clare

Llwyddiant ysgubol oedd yr ŵyl ym Mharc Dinefwr yn Sir Gâr. Tridiau o ddathlu llenyddiaeth a thirwedd gyda rhagor na 2,500 o ymwelwyr ac er gwaethaf y tywydd echrydus caed 100 ddigwyddiadau gydag awduron, beirdd, cerddorion, artistiaid, actorion a chomedïwyr.

“Cymysgedd ydoedd o ŵyl Glastonbury gyda'i mwd ag agwedd hawddgar y Gorllewin gydag awduron o fri a'r Gymraeg a'r Saesneg yn blith draphlith mewn undod cytûn. Mentro wnaethom wrth sefydlu math newydd o ŵyl ond mae'r canlyniadau'n wych.“  
Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr, Llenyddiaeth Cymru

Cynhyrchiad Theatr Bara Caws - *Ga'i fod*

Galwad natur! Chwa o awyr iach oedd y cynhyrchiad hwn yn ddiâu. Â pum person ar benwythnos o brofi bywyd yn anifeiliaid. Gall dychwelyd i natur fod yn beth rhyfedd tu hwnt ond mae rhai'n fwy llwyddiannus nag eraill. Ond bydd yn brofiad bythgofiadwy.

Cyfieithiad ydoedd o'r sgript wreiddiol gan Madeleen Bloemndaal o'r Iseldiroedd.



---

Ar y dde: Gŵyl Llenyddiaeth Dinefwr  
Llun: Emyr Young





---

Ar y chwith: Canolfan Mileniwm Cymru  
Llun: Derek Naylor

Uchod: *Ga' i fod*  
Theatr Bara Caws

“Hiwmor y Cymry sy'n llenwi'r cynhyrchiad erbyn hyn ond erys neges gyffredinol iddo sy'n cyffwrdd â phawb - hyd yn oed y di-Gymraeg. Mae'n bwysig imi ddarganfod y tir canol gyda chynulleidfa amrywiol ei chefnidir.” Madeleen Bloemndaal

### **De Affrica Cymru - perfformiad cyntaf Mzansi Cymru**

“Roedd aros am y Fflam Olympaidd yn adeilad elusen ddatblygu Cymuned Treorci, dan awenau Plant y Cymoedd yn brofiad cofiadwy a her fawr iawn. Yr her i greu darn â chast anferth i bontio Cymru a De Affrica a lenwodd fy mywyd am bob eiliad o'r pedair blynedd.” Laurence Allan, Awdur, Cyfarwyddwr

Ar y ffordd beryglus dros Fynydd Llanwynno, cafodd Larry syniad am sioe a gyfunai Swlw, Nelson Mandela a'r Gemau Olympaidd a ddatblygwyd yn ddrama fawr yng Nghanolfan y Mileniwm a Theatr yr Artscape yn Nhref y Penrhyn. Roedd Mzansi (sy'n golygu 'De Affrica') Cymru dan arweiniad Valleys Kids yma ac Amampondo yno a chynhwysai nifer o grwpiau o'r ddwy wlad. Ysbrydolir *Torchbearers* gan y ffilm *Zulu* a gosodir yr hanes yn y chwe degau pan gafodd y ffilm ei gwneud. Â Gerwyn, actor ifanc o Gymru, i ffilmio yn Ne Affrica lle syrthia mewn cariad â Thembesile, dawnswraig Affricanaidd. Yn erbyn cefndir hanes Nelson, rhwyga apartheid eu bywydau'n ddarnau mân. A welant ei gilydd eto? A ymyrra ffawd yn ystod gemau 2012?

### **Drwy ailagor Rhaglen Gyfalaf y Cyngor gall prif sefydliadau celfyddydol y wlad ymelwa eto o arian Cyfalaf y Loteri**

Er 1997 rydym wedi dosbarthu dros £114,248,872 o arian y Loteri i gyfanswm o 1,599 o brosiectau ledled Cymru. Trawsnewidiwyd felly dirwedd adeiledig Cymru: creodd adeiladau o bwys, megis Canolfan Mileniwm Cymru a Chanolfan Glan yr Afon, Casnewydd, gyfleoedd pwysig i bobl fwynhau'r celfyddydau. Gesyd strategaeth newydd y rhaglen “ragor o flaenoriaeth ar adnewyddu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chynlluniau codi o'r newydd.” Blaenoriaethau eraill yw buddsoddi cyfalaf i gynyddu incwm a lleihau costau; ymwneud â rhaglenni adfywio ehangach; a phrosiectau celfyddydol cyhoeddus gyda disgwyl ar bob prosiect ag adeilad i gynnwys strategaeth gelfyddydol gyhoeddus. Uchelgais ein rhaglen yw parhau i ddarparu buddion sylweddol i gelfyddydau Cymru drwy fuddsoddi cyfalaf a sicrhau y gallant gyflawni eu holl bosibiliadau.

## Cyflwynu Ballet Cymru *COLD ROLLING/TIR*

Ac yntau wedi ennill tlws Critics Circle, mae gan y cwmni ddwy sioe'n un o waith newydd gan Tanja Råman a Cerys Matthews.

## Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg

Ychydig o wyliau sy'n meddu ar oriel ar y safle, ond mae gan yr Eisteddfod ei Lle Celf ac yn 2012 roedd gwaith 44 artist ar ddangos gyda 19 ohonynt yn newydd i'r Maes. Unwaith eto roeddem yn bartner bodlon yn y fenter gan wahodd plant ac oedolion o bob oed i brofi teithiau tywys o amgylch yr arddangosfa i sbarduno meddwl am y gwaith. Ac eleni ein nod oedd ysbrydoli pobl ifainc â gweithdai ymarferol i ddal dychymyg y plant.

## Kaite O'Reilly's *In Water I'm Weightless*

Golwg brofoclyd ar y corff dynol gyda llwyfannu, symud a thaflunio difyr, perfformiwyd y sioe farddonol, ddigrif a thrist Kaite O'Reilly gan chwe pherfformiwr Byddar ac anabl gyda John McGrath yn gyfarwyddwr a Nigel Charnock ar ochr y symud. Sioe athletaidd a radical gan National Theatre Wales a ddathlai amrywiaeth a medrau'r cwmni gan archwilio posibiladau gwahaniaeth dynol.



---

Uchod: *COLD ROLLING / TIR*

Ballet Cymru (Cerys Matthews a Tanja Råman)

Glan yr Afon, Casnewydd

Llun: Nicolas Young

Ar y dde: *In Water I'm Weightless*

Kaite O'Reilly a National Theatre Wales

Roedd hon yn Gomisiwn Heb Ffiniau i'r Olympiad Diwylliannol

Llun: Farrow's Creative







# Hydref 2012

Un noson, dwy opera

**“*You come out feeling different – about love, life and death.*”**

Financial Times

David Harsent, y bardd, a ysgrifennodd y libreto i *In the Locked Room* gan Huw Watkins, y cyfansoddwr. Cyfarwyddwyd y darn gan Michael McCarthy o Music Theatre Wales. Louise Welsh, y nofelydd, a ysgrifennodd y libreto i *Ghost Patrol* Stuart MacRae, cyfansoddwr o'r Alban. Cyfarwyddwyd y darn gan Matthew Richardson. Arweiniwyd y ddwy gan Michael Rafferty o Music Theatre Wales. Archwiliai *In the Locked Room* obsesiwn cynyddol Ella fel y crea garwriaeth ddychmygol. Dihangfa ddiniwed a drodd yn realaeth niweidiol nad oedd modd dianc rhagddi. Creodd Stuart a Louise fyd hollol wahanol yn *Ghost Patrol* lle cyfarfu bywyd sifil ag effeithiau echrydus rhyfel.

**Caraf Gonwy, Conwy a'm câr**

Cynhaliwyd ail wyl y celfyddydau digidol Blinc, yn Hydref yng Nghonwy. Yn sgil ei llwyddiant blaenorol, dangosai gelfweithiau cyffrous iawn gan 30 artist. Cynhaliwyd yn enw Alan Turing, yr athrylith fathemategol a ddatrysodd god y Natsiaid yn ystod y rhyfel ac sy'n dad y cyfrifiaduron. Ei ganmlwyddiant yw 2012.

---

*Ghost Patrol*

Music Theatre Wales mewn cydweithrediad â Scottish Opera

Llun: Clive Barda

## Ymrwymiad Cyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygiad digidol y celfyddydau yng Nghymru

Mewn partneriaeth newydd â Nesta a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, cefnoga gronfa Ymchwil a Datblygiad Digidol y celfyddydau yng Nghymru gynnyrch a gwasanaethau creadigol newydd a ellir eu defnyddio ar draws llwyfannau aml ddigidol ac o fewn marchnadoedd rhyngwladol â'r nod o sbarduno busnesau yn y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru.

### 9Bach yn Awstralia

Daeth grŵp perfformio brodorol o Awstralia, The Black Arm Band Company ac aelodau o'r band Cymraeg 9Bach ynghyd ar gyfer prosiect unigryw a gefnogir gan y British Council, a ymchwiliodd i leoliad, hunaniaeth, diwylliant a gwarchod iaith. Yn Hydref 2011 bu Lisa Jên Brown a Martin Hoyland o 9Bach i Awstralia i dreulio mis gydag aelodau o The Black Arm Band Company, gan ddechrau yn Melbourne a mynd wedyn i ranbarth Tiriogaeth Ogleddol Papunya. Mae gostyngiad serth ac arswydus mewn nifer yr ieithoedd yn y byd. Yn ôl Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig, diflanna dwy iaith bob pythefnos, ond defnyddia'r ddau grŵp hyn gerddoriaeth i achub eu dwy iaith gan godi proffil eu hieithoedd a'u llefaru gerbron cynulleidfaoedd newydd.



---

Uchod: The Black Arm Band Company a berfformiodd gyda 9Bach yn Awstralia  
Llun: John Sones

Ar y dde: Gŵyl gelfyddydol ddigidol Blinc, Conwy







---

Ar y chwith: *At Swim Two Boys*  
Earthfall  
Llun: Hugo Glendinning

Uchod: Cerys Matthews  
Cyfarwyddwr Artistig Cyngerdd Agoriadol WOMEX13  
Llun: Rhys Frampton © Cerys Matthews

## Earthfall yw'r sefydliad cyntaf i ennill gwobr Canmol

Dathla Gwobrwyon Canmol yr ymgyrchoedd marchnata gorau yng Nghymru a 2012 oedd y tro cyntaf i sefydliad Celfyddydol ennill un. Roedd Earthfall, cwmni preswyl yn Chapter a sefydliad refeniw i Gyngor Celfyddydau Cymru, wrth ei fodd i ennill hon gan y Sefydliad Marchnata Siartredig am ymgyrch At Swim Two Boys.

## Cerys yn cyfri'r dyddiau tan WOMEX yng Nghymru

“Ym mis Hydref 2013 fe fydd Cymru a'n cerddoriaeth ar lwyfan y byd pan fydd WOMEX yn cael ei chynnal yma yng Nghaerdydd. Rydw i am sicrhau y bydd cynrychiolwyr Cerddoriaeth y Byd yn gwenu, yn synfyfrio ac yn awyddus i wybod mwy am wlad y gân, sy'n alarus ond angerddol, yn llawn harmoni, a'u helpu i ddarganfod ein traddodiadau newydd a'n traddodiadau hynafol.”

“Byddwn yn croesawu ymwelwyr i'r wlad Geltaidd lai adnabyddus hon, i ymhyfrydu yng nghysgodion Dylan Thomas, Aneurin Bevan a Syr Tom Jones, i brofi canu corawl, cwrw 'skull attack', cocosen neu ddwy, cennin, cennin Pedr, a chael eu gwefreiddio gan y ddraig goch ar ein baner. Ond hoffwn sicrhau eu bod yn cael eu swyno gennym, eu bod yn ymhyfrydu yn ein hymadroddion, ein hwiangerddi hudolus, a melodïau eneidiau breuddwydiol, oherwydd ymhlith y mynyddoedd, y nentydd a'r creigiau arfordirol mae llwyth o bobl sy'n parhau i garu cynganedd a chanu harmonïau ac mae'r angerdd hwnnw i'w weld yn amlwg iawn hyd yn oed wrth i ni drydar drwy'r unfed ganrif ar hugain.”

Cerys Matthews



# Gaeaf 2012

## Perfformiad cyntaf prosiect cerddorol indo-gymreig yn India

Cafwyd ffrwyth prosiect cydweithredol newydd gan Gerddorion o Gymru ac India, dan arweiniad y gantores a'r gyfansoddwraig werin Gymreig, Gwyneth Glyn, a'r cerddor Indiaidd Tauseef Akhtar, ei berfformio am y tro cyntaf ym Mumba. Perfformiwyd ef berfformio eto wedyn mewn dwy wyl allweddol, sef Gŵyl Cerddoriaeth Anialdir yr Amarrass yn Delhi a'r IndiEarth XChange yn Chennai. Cafodd yr artistiaid eu dethol gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru a Donal Wheelan o Hafod Mastering, sy'n gweithio gyda cherddorion yn India yn gyson, a gyda'r diwydiant ffilmiau yn Bollywood yn arbennig. Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o brosiectau cyfnewid o dan y teitl *I Adra* sy'n cael eu trefnu gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru gan adeiladu ar lwyddiant parhaus Cadwyn Creu India Cymru. Mae'r prosiect yn rhan o'r paratodau ar gyfer WOMEX, sef sioe fawr cerddoriaeth y byd, yng Nghaerdydd yn 2013 pan fyddwn yn croesawu dros 2,500 o gynadleddwyr i glywed am ein diwylliant a'n cynnyrch cerddorol a phrofi cerddoriaeth o bedwar ban y byd.

## Teresa Margolles yn ennill Artes Mundi 5

Dewiswyd Teresa Margolles o restr fer o saith gan banel o guradurwyr a chyfarwyddwyr rhyngwladol. Dyma'r wobwr ariannol fwyaf am y celfyddydau ym Mhrydain (£40,000) ac ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol yn y byd. Troseddu'n gysylltiedig â chyffuriau a llofruddio ym Mecsico oedd canolbwynt y gwaith.

---

*I Adra*  
Gwyneth Glyn a Tauseef Akhtar  
Llun: Yotam Agam a Sonya Mazumdar

## Hwb gan y Loteri i wyliau gorau Cymru

Ymelwa gwyliau ledled Cymru o arian y loteri i arddangos talent ddiwylliannol a chreadigol. Caiff Gŵyl Lenyddol a Chelfyddydol y Gelli a Locws Rhyngwladol £100,000 yr un. Pery awduron, ffilmwyr, comedïwyr, gwleidyddion a cherddorion o fri i ddod i Wyl y Gelli i ddifyrru'r dorf. Am 10 diwrnod mae'r Gelli Gandryll yn llawn storïau, syniadau a cherddoriaeth. Rhaglen tair blynedd yw Locws Rhyngwladol (Mawrth 2012-Mawrth 2015) o bum gŵyl o gelfyddyd gyhoeddus, benodol i safle yn Abertawe. Mae gan Wyl Bro Morgannwg enw ardderchog o hyd am raglennu gwaith cyfansoddwyr a pherfformwyr Cymru a thramor mewn ystod o leoliadau hanesyddol a chyfoes. Yn 2012 comisiynwyd gwaith gan gyfansoddwyr enwog megis Philip Glass, Qigang Chen a Per Norgard.

## Ffrwyth partneriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac Undeb Rygbi Cymru

Beth yw ystyr rygbi i Gymru? Ble mae calon y gêm? Dyma rai o'r cwestiynau y cais y bardd a'r awdur o Gymru, Owen Sheers, eu hateb yn ei lyfr diweddaraf, *Calon: A Journey to the Heart of Welsh Rugby*. O ystafelloedd newid chwyslyd i gyffro ochr y cae, mwynhâi gael mynd i bobman ym myd y bêl hirgron. Ffrwyth preswylfa newydd rhwng y Cyngor a'r Undeb oedd y llyfr. Mae'n gydfenter tair blynedd sy'n rhan o bolisi celfyddydol strategol ehangach sy'n fodd i fynegi ethos a chymeriad cymdeithas y Cymry.

---

*Calon: A Journey to the Heart of Welsh Rugby*  
Roger Lewis, Owen Sheers a'r Athro Dai Smith  
© Undeb Rygbi Cymru







# Gwanwyn 2013



*Project Olion*  
Prosiect Olion, Prifysgol Fetrapolitan Abertawe a'r YMCA  
Prosiect Cyrraedd y Nod

## Sgwrs Gelfyddydol – LLE AGORED – Yn fyw!

Beth yw celfyddyd dda? Pa gelfyddyd sy'n ddigon da? Sut y meithrinwn y gorau ar gyfer y mwyaf? Dyma rai o'r cwestiynau a ofynasom yn ystod y sgysiau celfyddydol. Roeddem am gynnwys cymuned y celfyddydau, artistiaid, sefydliadau celfyddydol a'n partneriaid a phobl Cymru am fod y celfyddydau yn effeithio ar bawb. Rydym yn benderfynol o barhau'r drafodaeth ystyrion rhyngom a'r artistiaid, y sector, yr ymgyfranogwyr, yr aelodau etholedig, yr ymgynghorwyr cenedlaethol, y cyrff cynrychioladol, y gynulleidfa a chlywed am y rhwystrau a atalia rhai eraill rhag ymgysylltu â'r celfyddydau.

## Gall dysgu gyda'r celfyddydau newid bywydau pobl ifainc

Ym Mawrth 2013 dathlwyd sut y bu'r prosiect yn gymorth i ragor na 7,500 o bobl ifainc i wella eu cyfleoedd gyrfu, drwy gael cymwysterau neu fynd yn ôl at addysg neu fagu hyder a dysgu sgiliau cyflwyno. Nod menter Llywodraeth Cymru yw lleihau'r nifer o bobl ifainc Cymru rhwng 11-19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o fod felly. Cafodd y prosiect arian oddi wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy raglen Gydgyfeirio Ewrop 2007-13 ac ers Mawrth 2009 cafodd y cynllun gyfanswm o £19.6 miliwn a thros hanner hynny ar gyfer y rhaglen Troedle Cyntaf y buom yn rhan ohoni. Rydym wedi cefnogi dros 7,500 o bobl ifainc ag ystod o bartneriaid darparu mewn bron i 80 o brosiectau ledled Cymru. Mae cannoedd o hanesion am lwyddiant. Dyma un: roedd yn ferch ddihyder a phrin ei chyfeillion. Roedd ar dân eisiau ymadael â'r ysgol. Ond ar ôl cymryd rhan mewn prosiect Cyrraedd y Nod,

canodd unawd yng Ngŵyl Balchder Anabledd yng Nghanolfan y Mileniwm, gwnaeth lu o ffrindiau newydd ac ymunodd â safle cymdeithasol i bobl ifainc ddall a rhannol ddall. Erbyn hyn penderfynodd fynd yn ôl i'r ysgol i wneud ei lefel A. Dengys storïau eraill y gall dysgu drwy'r celfyddydau fagu hyder a gwella sgiliau cyfathrebu, gan alluogi pobl ifainc i fanteisio ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth.

**10 mlynedd. 200 artist. £3 miliwn mewn grantiau i artistiaid**

Rhoesom i 22 artist proffesiynol ar draws y celfyddydau grant Cymru Greadigol wrth inni ddathlu 10 mlynedd o gydnabod swyddogaeth ein hartistiaid. Cafodd artistiaid Cymru o ystod eang o'r celfyddydau gan gynnwys theatr, y celfyddydau gweledol, crefftau a cherddoriaeth, grantiau gwerth £400,000 o arian y loteri.





***“Heb y gefnogaeth hon ni chyrraedd byth yr artistiaid eu posibiladau llawn gan amddifadu Cymru o'i hunig nodwedd - ei diwylliant. Mae'r celfyddydau wrth wraidd meithrin hyder Cymru greadigol a sicrhau ein presenoldeb ar lwyfan y byd. O ran ein diwydiannau creadigol, rhaid inni fuddsoddi mewn artistiaid unigol i roi'r cyfle iddynt arbrofi, creu, arloesi a chyfoethogi eu hymarfer. Parhawn i sicrhau bod gennym y cyfle a'r amser i ddatblygu'r talentau eithriadol hyn.”***

Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd y Cyngor

---

Ar y chwith: Sgwrs Gelfyddydol  
Stadiwm Mileniwm Cymru

Uchod: *Before it Rains*  
Katherine Chandler, Dyfarniad Cymru Greadigol 2012/13  
Sherman Cymru



---

Ar y chwith: *Unaffected Alterations*  
Matt Cook, Dyfarniad Cymru Greadigol 2012/13

Uchod: *Desire Lines*  
Ian Rowlands, Dyfarniad Cymru Greadigol 2012/13

Ar y dde: *Ghost Parade*  
Steffan Caddick, Dyfarniad Cymru Greadigol 2012/13  
*Adain Avion*, Glynabwy  
Llun: Warren Orchard





Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

[www.cyngorcelfyddydau.cymru.org.uk](http://www.cyngorcelfyddydau.cymru.org.uk)  
[www.artscouncilofwales.org.uk](http://www.artscouncilofwales.org.uk)